St John Ambulance Cymru




# Adroddiad Effaith 2022

# Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro a'r Prior dros Gymru

Rydym yn hynod falch o'r hyn a gafodd ei gyflawni gan ein pobl yn 2022, gan gymryd camau breision i fyw ein cenhadaeth i achub bywydau a gwella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru, trwy barhau i fod yno, pryd bynnag a lle bynnag y bo'r angen mwyaf amdanon ni.

Daeth 2022 â her a newid i St John Ambulance Cymru. Roedden ni'n ddiolchgar o allu dychwelyd i raglen lawn o sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb a chodi arian, ond hefyd roeddem yn wynebu'r gorbenion uwch a'r costau gweithredu cynyddol sy'n cael eu teimlo ledled y sector elusennol.

Gwnaethom barhau i weithio gyda'n partneriaid ledled GIG Cymru, gan ddarparu cymorth gofal heb ei drefnu, cymorth â chwympiadau, cynlluniau ymateb cyntaf cymunedol, darpariaeth ar gyfer digwyddiadau, wrth ddysgu sgiliau achub bywyd. Mae'n braf gweld y camau cadarnhaol tuag at niwtraliaeth garbon, ymrwymiad y gwnaethom yn ein Strategaeth 2025, drwy gyflwyno wyth cerbyd hybrid newydd i'n fflyd bresennol.



Yn 2022 hefyd, parhaodd yr elusen i ddatblygu ei llwyddiant wrth gyflawni Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru, er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i'n pobl iau anelu am yrfa yn GIG Cymru. Cafodd ein Harwisgiadau blynyddol eu cynnal yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a Llanelwy, ac yn arbennig o gofiadwy oedd croesawu yr Arglwydd Prior i Eglwys Gadeiriol Llandaf i anrhydeddu, rhoi diolch a dathlu'r ymrwymiad anhunanol a'r aberth personol y mae ein gwirfoddolwyr yn eu gwneud ar ran y Prior a dros bobl Cymru.

I gefnogi, cafodd tîm newydd o uwch gaplaniaid eu cyflwyno i'n helpu ni i barhau i ganolbwyntio ar wreiddiau'r sefydliad mewn ffydd, gan fod yn gynhwysol a chroesawgar i bawb, beth bynnag yw eu credoau crefyddol, a rhoi gofal bugeiliol a chefnogaeth ysbrydol i holl staff a gwirfoddolwyr St John Ambulance Cymru ar hyd a lled Cymru.

Fel llawer un arall, roeddem yn drist iawn i glywed y newyddion am ymadawiad ein cyn Bennaeth Sofran, EM Brenhines Elizabeth II. Fel erioed, roedd ein gwirfoddolwyr wrth law i'n cefnogi ni, gan ein cynrychioli ni ar lwyfannau cenedlaethol a'r byd gyda'r dewrder a'r ymroddiad anhunanol sydd mor gyfystyr â'n pobl St John.

Byddwn ni'n parhau i ddatblygu diwylliant dysgu cefnogol, sydd wedi ymrwymo'n llwyr i strategaeth fyd-eang St John, gan rannu arfer gorau, meithrin arloesedd i barhau i arallgyfeirio ein gwasanaethau, ffrydiau incwm a'n gallu i godi arian er mwyn ein harwain yn agosach at ein gweledigaeth o **'Cymorth cyntaf i bawb, unrhyw bryd, unrhyw le'.**

---

**Sir Paul Williams, OBE, KStJ, DL**
Prior Cymru a Chadeirydd y Bwrdd

**Andy Jones,**
Prif Swyddog Gweithredol dros dro



# Ein Gwirfoddolwyr

## Unwaith eto, gwnaeth ein tîm ymroddedig o wirfoddolwyr helpu i gefnogi ein cymunedau lleol ledled Cymru.

Rhoddodd ein gwirfoddolwyr ymroddedig eu hamser i sicrhau bod pobl yn cael eu cadw'n ddiogel mewn digwyddiadau lleol fel arddangosfeydd tân gwyllt a gorymdeithiau Nadolig, ynghyd â digwyddiadau mawr, cenedlaethol fel Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, cyngherddau gyda chynulleidfaoedd mawr a Phencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad.

Gwnaethom dreulio 780 awr yn cefnogi digwyddiad Sioe Awyr y Rhyl a 4,391 awr yn cefnogi'r cyhoedd ym Mhwynt Cymorth Gerallt Davies yn Abertawe. Gwnaethom gyflenwi cyfanswm cyfunol o 7,610 awr o gymorth cyntaf ar gyfer digwyddiadau yn Stadiwm Principality.

Ymrwymodd ein gwirfoddolwyr gyfanswm cyfunol of **74,564 o oriau**

**mewn bron i 400 o ddigwyddiadau ledled Cymru**

Mae hyn yn fwy na dwbl cyfanswm oriau cyfunol 2021 .












EFA

# Cefnogi Cymunedau Cymru

Parhaodd ein Timau Gweithrediadau Ambiwlans i ddarparu gwasanaethau hanfodol wrth wraidd cymunedau lleol, gan gefnogi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ystod blwyddyn heriol arall. Gwnaethom helpu i sicrhau bod pobl ledled Cymru yn cael y gofal yr oedd ei angen arnyn nhw drwy ein hamrywiaeth o raglenni.






**Yn 2022** gwnaeth ein Gweithrediadau Ambiwlans **28,330** o deithiau cleifion, gan deithio **722,649 o filltiroedd**

**Cynyddodd ein milltiroedd 39%** a gwnaethom deithio'n bellach i helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf amdanom yn rhai o'r cymunedau mwyaf gwledig ar hyd a lled Cymru.

Cynyddodd nifer y cleifion y gwnaethom eu cynorthwyo gan **6% yn 2022**



**Trwy gydol 2022,** gwnaeth y Cynllun Cwympiadau ac Eiddiledd ofalu am **8,090** o gleifion a theithiodd **226,261** o filltiroedd ar draws Cymru.

**Yn 2022,** cawsom geir hybrid RAV4 newydd i gefnogi'r Cynllun Cwympiadau ac Eiddiledd. Daeth hyn â St John Ambulance Cymru gam yn nes at gyflawni ein haddewid Strategaeth 2025 o gyflawni niwtraliaeth garbon erbyn 2035.




Un o'n defnyddwyr Cynllun Cwympiadau ac Eiddiledd -

"Roedd gwybodaeth a gofal Paul yn rhagorol a gwnaeth ei synnwyr digrifwch gwych ein hymlacio a rhoi sicrwydd i ni ar adeg llawn straen. Cododd Nain ar y ddyfais codi, a oedd yn gyfforddus ac yn ddelfrydol ar gyfer y sefyllfa; gwnaeth hi deimlo rhyddhad cyn gynted ag y gwnaeth lenwi ag aer i'w chodi hi oddi ar y llawr caled."

"Roedd y ffaith iddo gyrraedd yn gyflym a chyd-gysylltu â'r gwasanaeth rheoli ambiwlansys yn golygu bod Nain yn gallu aros yn y cartref gofal ac osgoi mynd i'r ysbyty eto. Ni allwn ni ddiolch digon i chi am yr ymateb a'r gofal a roddwyd. Am wasanaeth gwych!"

# Hyfforddiant

Gweithiodd ein timau Hyfforddi Masnachol a chymunedol yn galed eleni i rymuso pobl Cymru â sgiliau cymorth cyntaf sy'n achub bywydau. Cyflwynodd ein hyfforddwyr masnachol amrywiaeth o wahanol gyrsiau cymorth cyntaf, o gyrsiau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith i Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl.

Gwnaeth ymgyrchoedd fel **Defibruary**, **Save a Life September** ac **Wythnos Diogelwch Plant** hyfforddi nifer fawr o'r cyhoedd am ddim. Hefyd, gwnaeth ein hyfforddwyr cymunedol a'n gwirfoddolwyr ymweld ag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol drwy gydol y flwyddyn, gan roi sesiynau gwybodaeth hanfodol ac arddangosiadau am ddim.

Hyfforddodd ymgyrch Save a Life September **3,413 o bobl** mewn sgiliau cymorth cyntaf.



**Yn 2022,**

hyfforddodd St John Ambulance Cymru gyfanswm o bobl mewn sgiliau cymorth cyntaf sy'n achub bywyd. **36,879**

**12,002** o'r bobl hyn eu hyfforddi gan ein tîm Masnachol.





**24,877** eu hyfforddi am ddim drwy **569** o gyrsiau wedi'u cynnal gan ein hyfforddwyr cymunedol a'n gwirfoddolwyr.


Gwthiwch y bar i agor
Push bar to open

# Plant a Phobl Ifanc

Gwnaeth ein rhaglenni plant a phobl ifanc roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ledled Gymru i achub bywydau, maen nhw hefyd yn dysgu sgiliau gwerthfawr o ran cyfathrebu, arweinyddiaeth, cydweithio a ffurfio gwerthoedd sylfaenol mewn dinasyddiaeth, cydymdeimlad ac empathi. Gwnaeth pobl ifanc o bump oed gymryd rhan yn ein rhaglenni gan greu atgofion gwych gyda ni drwy gydol 2022.

Yn 2022, dechreuom gynllun lle'r oedd aelodau 16 ac 17 oed yn gallu cymhwyso fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Sylfaenol i oedolion a gwirfoddoli mewn digwyddiadau. Dechreuodd hyn gyda Gemau Rhyngwladol yr Hydref yn Stadiwm Principality.

Erbyn diwedd 2022 roedd gennym ni **428** o Foch Daear ac **805** o Gadetiaid yn dysgu cymorth cyntaf a sgiliau bywyd amhrisiadwy eraill ar draws **34 Set Moch daear** ac **82 Adran Cadetiaid** ledled Cymru.

**Enillodd ein Moch Daear** **364 o wobrau**

**Enillodd ein Cadetiaid** **584 o wobrau**

Roedd y gwobrau hyn yn atgoffa'n pobl ifanc pa mor falch yr ydym o'u gwaith caled.



**Pan sylwodd George, sy'n 11 oed** ar fenyw oedrannus sâl ar gornel y ffordd, dangosodd gydymdeimlad a defnyddiodd y sgiliau a ddysgodd wrth wirfoddoli gyda St John Ambulance Cymru, i'w helpu. Gofynnodd George i'w fam stopio'r car a helpodd y ddau y fenyw i mewn i'r car ac aethon nhw â hi adref.

Y noson honno, dioddefodd y fenyw drawiad mawr ar y galon. Dywedodd y meddygon, pe na bai hi wedi bod gartref gyda'i theulu o'i hamgylch y noson honno, a'i bod hi wedi dioddef trawiad ar y galon ar gornel y stryd lle gwelodd George hi, efallai na fyddai wedi cyrraedd adref o gwbl.

**"Mae St John Ambulance Cymru wedi bod yn anhygoel i George a'i hyder, a nawr mae wedi achub bywyd y ddynes yma hefyd"**

– Mam George, Christine.

# Creu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer y dyfodol

Royal College of Nursing
Prince of Wales Nursing Cadet Scheme

**Gwnaethom barhau â'n partneriaeth â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) drwy gydol 2022, gan gyflwyno Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru RCN i bobl ifanc 16-25 oed ledled Cymru. Parhaodd y cynllun i gefnogi pobl ifanc ledled Cymru i symud i rolau yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.**

Mae'r cynllun yn paratoi pobl ifanc ar gyfer gyrfa ystyrlon mewn gofal iechyd a nyrsio, drwy sesiynau wedi'u haddysgu a lleoliadau clinigol.

Gwnaeth 9 Cadét newydd gofrestru yn y cynllun yn 2022, gan ddod â chyfanswm yr unigolion sydd wedi cofrestru i 25.

Mae Cynllun Cadetiaid Tywysog Cymru yn cynnig y sgiliau datblygu personol a phroffesiynol sydd eu hangen ar bobl ifanc i ddilyn eu gyrfaoedd delfrydol ym maes gofal iechyd.

"Dechreuais i ymwneud â Chynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru drwy St John Ambulance Cymru yn 2020. Mae cwblhau Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru wedi rhoi mwy o hyder i fi ynof fi fy hun ac yn fy ngalluoedd. Mae wedi fy helpu i gamu i mewn i'r proffesiwn gofal iechyd drwy ddod yn Gynorthwyydd Gofal Iechyd Banc wrth i mi ymgymryd â Thystysgrif Addysg Uwch mewn Gwyddorau Iechyd gyda'r Brifysgol Agored.

**Rwy'n teimlo bod y sgiliau a'r pynciau y gwnaethon ni eu dysgu wedi fy helpu i i fod yn Eiriolwr Anabledd Plant a Phobl Ifanc cyntaf St John Ambulance Cymru, ac mae wedi fy ngwneud i'n person well.**

I unrhyw bobl ifanc a hoffai fynd i faes ofal iechyd, mae'r cwrs hwn yn gam cyntaf gwych. Mae'n helpu i ddatblygu'ch sgiliau a'ch gwybodaeth wrth ddarparu amgylchedd dysgu cefnogol a chyfleoedd eraill o fewn y cynllun."

Rachael Alexander,
Cyn Gadét Nyrsio Tywysog Cymru RCN.

# Yr Urdd

Yn 2022 gwnaeth Priordy Cymru gydnabod y cyfraniadau mwyaf anhunanol i'n hachos gydag amrywiaeth o anrhydeddau a gwobrau'n cael eu rhoi i gydnabod ymdrechion a chyflawniadau tuag at ein cenhadaeth.

## Hefyd, gwnaethom roi'r gwobrau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Tystysgrif Gwasanaeth Teilwng** | Ashleigh Brooks |
| **Tystysgrif Cymeradwyo** | Martyn Price |
| **Cymeradwyo Cadét** | Alison Bunting |
| **Cymeradwyo Mochyn Daear** | Lowri Gowen, Osian Jones |
| **Gwobr Sofran** | Georgina Knapman, Jaqueline Argent |
| **Gair o Ddiolch gan y Prior** | Simon Tucker of Heartbeat Trust UK, Heddlu Gogledd Cymru |
| **Cynllun Cadetiaid Nyrsio Tywysog Cymru** | Oliver James, Jonathan Ratcliffe |

**Medal Gwasanaeth Hir x19 (10 mlynedd)**

**Medal Gwasanaeth Hir Iawn x5 (50 mlynedd)**

**Bar Gwasanaeth Hir x34 (blynyddoedd amrywiol)**

**Bar Gwasanaeth Hir Iawn x3 (55 mlynedd)**



# Dyrchafiadau a derbyniadau i'r urdd 2022

## FEL CADLYWYDD

Y Gwir Parchedig Gregory Kenneth CAMERON

Simon James COLE

Paul GRIFFTHS OBE

Richard Royce LEE MBE QAM

Dr Edward Morgan ROBERTS MBE DL

## FEL SWYDDOG

Richard Lewis John BAXTER

Judith Mary GOLDSMITH

Andrew James KING

Gareth LLOYD-FORD

Richard James McKEAND

Stephen MORE

Edward Stephen RINGROSE

Tracy Louise SANKEY-JONES

Helen SMITH

Claire Elizabeth STONE

## FEL AELOD

Zoe ARGENT

Emma Susan BAILEY

Rhydian Dafydd BIRKINSHAW-BIRD

Sally Louise BOND

Isobel BRANDON

Emily BRISTOW

James CORDELL

Mary Patricia FRANCE

Rhys John HAMBLIN

Amelia Jane HEWETT

Jessica Mary HUGHES

Melanie HUMPHREYS

Aaron Penry William JONES

Andrew Nathan JONES

Sion JONES

Kimberley LOW

Kenneth David LYONS

James Terence O'CONNOR

Jessica Sian ROGERS

Wayne STRINGFELLOW



# Codi Arian

Diolch yn fawr iawn i'n holl gefnogwyr a noddwyr yn 2022. Gwnaeth eu haelioni a'u cefnogaeth barhaus helpu i ariannu ein gwaith elusennol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau ledled Cymru, mewn blwyddyn yr ydyn ni'n ymwybodol iddi fod yn anodd i gynifer o bobl.

**Codwyd bron i £500,000**

gan ein rhoddwyr rheolaidd anhygoel.

**£300,000**

Rhodd hael gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau i gefnogi ein gwaith elusennol.











**£4,260**

wedi ei godi mewn twrnament pêl-droed 'Cwpan Coffa'.

Diolch o galon i anwyliaid y rhai a oedd mor garedig â gadael rhodd yn eu hewyllys i St John Ambulance Cymru. Bydd eu hetifeddiaeth barhaol yn cael ei defnyddio i helpu i greu mwy o achubwyr bywyd a diogelu cymunedau yng Nghymru.

Roedd pobl allan yn eu cymuned yn ein cefnogi ni drwy gynnal casgliadau bwced, cymryd rhan mewn rasys a heriau wedi'u noddi, nosweithiau cwis a chyri a chodi ymwybyddiaeth hanfodol o'n gwaith mewn cymunedau ledled Cymru.

**Diolch i bob un ohonoch chi.**




Registered with
FUNDRAISING
REGULATOR


# Cyllid

Yn 2022 gwnaethom barhau i adfer rhag effaith Covid-19, a gwnaethom fuddsoddiad sylweddol yn seilwaith yr Elusen i gefnogi twf a chyflawni ein nodau.

Roedd incwm yn uwch nag yn 2021, gan ein galluogi i barhau i gefnogi cymunedau Cymru a diwallu'r galw cynyddol ar ein gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd costau hefyd yn uwch nag yn 2021 ac effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw.

Rydym yn ddiolchgar i'n holl wirfoddolwyr a staff sy'n parhau i ddangos cadernid a hyblygrwydd sy'n rhoi hyder i ni ein bod ni'n gallu parhau i dyfu ein hincwm yn 2023, gan ein galluogi ni i barhau i wella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru.


## Gwariant



- Gweithgareddau elusennol - 91%
- Codi arian - 6%
- Colled ar fuddsoddiadau - 2%
- Llywodraethant - 1%

**Cyfanswm: £9,078,391**

## Incwm



- Gweithgareddau elusennol - 82% (gan gynnwys grantiau)
- Rhoddion a chymynroddion - 11% (gan gynnwys grantiau)
- Masnachu arall - 2%
- Buddsoddiadau - 1%
- Elw o werthu asedau - 4%

**Cyfanswm: £8,605,303**

**Symudiadau mewn Cyllid/Diffyg - £473,088**

# Diolch

Rydym yn parhau i gael ein rhyfeddu gan haelioni ein cyllidwyr a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'n gwaith. Yn 2022 cawsom ein cefnogi gan:

Azets

Sefydliad Blakemore

Nwy Prydain

Cronfa Gymunedol Leol Co-op

Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

Gwasanaethau Ieuenctid Cyngor Gwirfoddol Cymru

Gwobr Dug Caeredin Cymru

Dŵr Cymru Welsh Water

Mentrau Cymunedol A465 Future Valleys Construction

GAVO

Groundwork UK

Fferm Wynt Gwynt Y Môr

Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

Sefydliad Moondance

Cyngor Sir Powys

Shell UK

Cronfa Datblygu Cynaliadwy - Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cronfa Gymunedol Arnold Clark

Sefydliad Garfield Weston

Cronfa Hospital Saturday


Ymddiriedolaeth Elusennol Simon Gibson

Ymddiriedolaeth Trefoil

VRM Abertawe

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Llywodraeth Cymru



# Gwneud gwahaniaeth

Ni fyddem yma heddiw heb gefnogwyr a gwirfoddolwyr anhygoel. Gallwch chi hefyd wneud gwahaniaeth a'n helpu ni i gyflawni ein cenhadaeth i achub bywydau a gwella iechyd a lles cymunedau yng Nghymru, trwy ein cefnogi yn un o'r ffyrdd canlynol:

## Dysgu gyda ni:

Mae gennym gyrsiau sy'n cwmpasu popeth o gymorth cyntaf i godi a chario ac o iechyd meddwl i ddiogelwch bwyd. Gallech ymuno â sesiwn ymwybyddiaeth gymunedol am ddim neu gwrs hyfforddi masnachol i gael y sgiliau sydd eu hangen arnoch, wedi'u cyflwyno'n broffesiynol, gan sefydliad yr ydych chi'n ymddiried ynddo. Mae'r holl elw a wneir o'n cyrsiau masnachol yn ariannu ein gwaith elusennol; sy'n golygu, pan fyddwch chi'n hyfforddi gyda ni, fe fyddwch chi'n helpu i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ledled Cymru i achub bywyd.

## Cymorth corfforaethol:

Mae codi arian yn y gwaith, noddi neu ein dewis ni fel Elusen y Flwyddyn yn ffordd wych o ddangos i'ch gweithwyr a'ch cleientiaid bod iechyd a lles eich cymuned yn bwysig i chi. Gall ein cefnogi ni helpu i gyflawni eich nodau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, annog adeiladu tîm a gwella ymgysylltu â staff. Yn gyfnewid am hyn, gallwn eich helpu chi i wneud eich swyddfa yn fwy diogel i weithio ynddi, neu i ymweld â hi.

## Heriwch eich hun:

**P'un a ydych chi'n cerdded, rhedeg, neu blymio o'r awyr, byddem wrth ein bodd petaech yn defnyddio'ch ymdrechion i helpu i gadw bywydau'n ddiogel drwy godi arian i ni.** Gallech gymryd rhan mewn marathonau yng Nghaerdydd, Llanelli neu Abertawe i godi arian i ni. Neu beth am gymryd rhan yn un o'n digwyddiadau her fel her gerdded 'Yr Wyddfa at Night? Cysylltwch â'r tîm codi arian (**fundraising@sjacymru.org.uk**) am ragor o wybodaeth.

## Gadael cymynrodd barhaol:

Mae gwneud eich ewyllys yn un o'r pethau pwysicaf y byddwch chi byth yn ei wneud. Mae'n sicrhau y bydd eich arian a'ch eiddo yn mynd i'r bobl a'r achosion sy'n bwysig i chi.
Er mwyn achub bywydau yng Nghymru, mae ein gwirfoddolwyr yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi i sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael y cymorth achub bywyd y mae dirfawr ei angen ar ein cymunedau. Gyda'ch cymorth chi, mae modd hyfforddi mwy o bobl,

mae’n bosib gwireddu uchelgeisiau, a gellir diogelu sicrwydd hirdymor gwasanaeth hanfodol yng Nghymru. Er mwyn gwneud pethau’n haws i chi, rydym ni wedi ein partneru gydag arbenigwyr ysgrifennu ewyllysiau ar-lein, gan gynnig cyfle i chi ysgrifennu eich ewyllys am ddim. I siarad â ni am eich cymynrodd, anfonwch e-bost at **legacies@sjacymru.org.uk**

## Rhoi

Mae eich rhodd i St John Ambulance Cymru yn ein galluogi ni i hyfforddi a pharatoi gwirfoddolwyr gofal iechyd i achub bywydau yn ogystal ag addysgu eraill i wneud yr un peth. Gyda’n gilydd gallwn weithio tuag at ein gweledigaeth i ddarparu - **cymorth cyntaf i bawb, unrhyw bryd, unrhyw le.**

Gallwch gyfrannu drwy sganio yma (COD QR), dros y ffôn (**02920 449626**), neu drwy e-bost (**fundraising@sjacymru.org.uk**)

### Byddwch yn rhan o wneud gwahaniaeth achub bywyd

SGANIWCH Y COD QR

Cymerwch ran a chyfrannwch heddiw:

**Ar-lein:** www.sjacymru.org.uk
**Ffôn:** 029 2044 9626
**E-bost:** hello@sjacymru.org.uk



**www.sjacymru.org.uk** | **@sjacymru**

St John Ambulance Cymru yw enw masnachu Priordy Cymru o Urdd Hybarch Ysbyty Sant Ioan yn Jerwsalem.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 250523. Cwmni cofrestredig cyfyngedig drwy warant rhif 5071073.